**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**7 MAWRTH 2019**

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau, 7 Mawrth 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT:**
Cyfreithiwr, Arweinydd y Tîm Trwyddedu, a Swyddog Pwyllgorau

Ymgeisydd
Cyfieithydd

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Ymgeisydd fod cyfieithydd ar gael i'w gynorthwyo yn ôl yr angen yn ystod y cyfarfod, a gofynnodd iddo a oedd yn dymuno i'r cyfieithydd fod yn bresennol pan fyddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn dymuno i'r cyfieithydd fod yn bresennol yn ystod y gwrandawiad er mwyn sicrhau ei fod yn deall y trafodion yn llawn.

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a'r cyfieithydd a chyflwynodd Aelodau'r Is-bwyllgor a swyddogion y Cyngor. Esboniodd drefn y gwrandawiad, gan gynnwys y dull o benderfynu'r cais.

**1. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**2. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**CYTUNWYD:**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer trafod yr eitemau canlynol oherwydd ystyrid eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio drwy rinwedd paragraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**3. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried cais am Drwydded Yrru Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y Cyd), wedi'i thrwyddedu gan yr Awdurdod.

Esboniodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu fod y cais wedi gofyn am fanylion unrhyw euogfarnau blaenorol ac roedd yr ymgeisydd wedi datgelu nifer o euogfarnau blaenorol. Ar ôl derbyn manylion datgeliad uwch cofnodion troseddol yr ymgeisydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), dangoswyd dwy euogfarn, yn dyddio o 1995 a 2013, am bum trosedd ar wahân. Roedd manylion

llawn yr euogfarnau wedi'u cynnwys mewn atodiad i'r adroddiad. Dychwelwyd adroddiad Ymholiad Gwrthrych Data D199 gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) a oedd yn cynnwys rhagor o fanylion am y troseddau ar y drwydded yrru DVLA a ddatgelwyd gan yr ymgeisydd.

Dywedodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu y gofynnwyd i'r ymgeisydd ddarparu esboniad ysgrifenedig o'i euogfarnau ac roedd hwn wedi'i gynnwys mewn atodiad i'r adroddiad. Oherwydd nifer yr euogfarnau a'u natur, cafodd yr ymgeisydd ei wahodd i ymddangos gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu i benderfynu a oedd yn unigolyn addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru ar y Cyd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gais yr ymgeisydd am Drwydded Yrru (ar y Cyd) a gofynnodd am ragor o wybodaeth ynglŷn â'i fanylion gwaith presennol a blaenorol, a'i uchelgais ar gyfer y dyfodol. Gofynnodd i'r ymgeisydd a oedd y cais ar gyfer gyrru tacsi neu Gerbyd Hurio Preifat, a oedd yn golygu gyrru am gryn amser a chludo teithwyr yn ddiogel i'w cyrchfan, a gofynnodd iddo petai'n llwyddiannus a fyddai'n gallu deall teithwyr a chynnal sgwrs gyda nhw am eu harcheb a'u taith. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn gallu deall cyfarwyddiadau a sgwrsio gyda theithwyr. Esboniodd Arweinydd y Tîm Trwyeddedu fod yr ymgeisydd wedi cael prawf gwybodaeth am yr ardal leol fel rhan o'i broses ymgeisio a'i fod wedi llwyddo i safon uchel.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r ymgeisydd gynnig esboniad llawn o'i euogfarnau blaenorol a nodwyd ar ddatgeliad cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Cyfeiriodd yr ymgeisydd at yr esboniad ysgrifenedig a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad a rhoddodd wybodaeth am y troseddau a gyflawnwyd.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i aelodau'r Panel holi'r ymgeisydd. Gofynnodd y Panel am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd ynglŷn â'r amgylchiadau a oedd wedi arwain at ei euogfarnau.

Cafodd yr ymgeisydd ei holi'n fanwl gan y Cyfreithiwr am ei euogfarnau fel y'u cofnodwyd ar ei gofnod DBS a'i esboniad ysgrifenedig o'r euogfarnau yn 1996 a 2013. Gofynnodd gwestiynau manwl i'r ymgeisydd ynglŷn â'i esboniad ysgrifenedig o ran ei euogfarnau yn 2013 a dywedodd ei fod wedi dweud nad oedd "y naill barti na'r llall wedi cael niwed" yn y digwyddiad. Gofynnodd i'r ymgeisydd beth oedd ei ddealltwriaeth o ystyr y gosodiad hwn a gofynnodd iddo gadarnhau a oedd yn gywir. Cafodd yr ymgeisydd ei holi gan y Cyfreithiwr a gofynnwyd iddo esbonio amgylchiadau'r drosedd honno a'r camau a gymerwyd ganddo ar y pryd. Esboniodd yr ymgeisydd gan fod yr euogfarnau wedi digwydd sawl blwyddyn yn ôl nad oedd yn gallu cofio'r holl fanylion yn ymwneud â throsedd 2013 na'r troseddau blaenorol. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd pan gyrhaeddodd y Deyrnas Unedig nid oedd yn llawn ddeall cyfraith y Deyrnas Unedig o ran traffig ffyrdd a gyrru cerbydau modur preifat. Dywedodd ei fod yn edifar ganddo am yr hyn a wnaeth yn y gorffennol ac roedd yn addo petai'n gysylltiedig â digwyddiad tebyg yn ymwneud â cherbyd yn y dyfodol y byddai'n ymateb mewn ffordd gyfrifol ac yn unol â chyfraith y DU.

| **Cymeradwywyd** | | **Dyddiad** |
|---|---|---|

Pan ofynnwyd iddo a oedd yn ystyried ei hun yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded, atebodd yr ymgeisydd yn gadarnhaol. Atebodd y cwestiynau a godwyd ynglŷn â'i amgylchiadau personol a theuluol ac esboniodd ei fod yn dymuno cynnig bywyd gwell a mwy sefydlog i'w hun a'i deulu.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon bod yr holl gwestiynau perthnasol wedi'u codi, gofynnodd i'r ymgeisydd, y cyfieithydd ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu, adael y cyfarfod er mwyn i'r Is-bwyllgor ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cais.

**3.1 <u>Dod i Benderfyniad ynglŷn â'r Cais</u>**

Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cais, ystyriodd yr Is-bwyllgor ganllawiau ar drin euogfarnau, rhybuddion, cyhuddiadau troseddol neu sancsiynau eraill a gofnodwyd a oedd ynghlwm â'r adroddiad.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol yn ystyr Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i ddal Trwydded Yrru Hurio Preifat /Cerbyd Hacni (ar y Cyd). Fodd bynnag, oherwydd pryderon y panel ynghylch nifer y troseddau a'u natur, a'r rhesymau a roddodd dros yr anghysonderau yn ei esboniad am drosedd benodol, cytunwyd y dylid caniatáu Trwydded Hurio Preifat /Tacsi 12 mis yn hytrach na Thrwydded 3 blynedd. Pan ddaw'r Drwydded 12 mis i ben, petai'r ymgeisydd yn dymuno gwneud cais am Drwydded arall, byddai'n rhaid iddo wneud cais am Drwydded newydd ar ei gost ei hun gan gynnwys unrhyw gostau a ffioedd a fyddai'n deillio o wiriadau fel gwiriad cofnodion troseddol uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwahoddwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu, yr ymgeisydd, a'r cyfieithydd i ddychwelyd i'r ystafell a chafodd y cyfarfod ei ailymgynnull.

**3.2 <u>Penderfyniad</u>**

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Is-bwyllgor wedi ystyried yr holl sylwadau ac wedi penderfynu fod yr ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru Hurio Preifat / Cerbyd Hacni (ar y Cyd) a rhoddwyd trwydded 12 mis iddo. Pan ddaw'r Drwydded 12 mis i ben, petai'r ymgeisydd yn dymuno gwneud cais am Drwydded arall, byddai'n rhaid iddo wneud hynny ar ei gostau ei hun gan gynnwys unrhyw gostau a ffioedd a fyddai'n deillio o wiriadau fel gwiriad cofnodion troseddol uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**<u>CYTUNWYD</u>:**

(a) Bod yr ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i fod ym meddiant Trwydded Yrru Hurio Preifat /Cerbyd Hacni o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a rhoddwyd trwydded 12 mis i'r ymgeisydd; a hefyd

(b) Pan ddaw'r drwydded 12 mis i ben, petai'r ymgeisydd yn gwneud cais newydd am Drwydded Yrru Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y Cyd), byddai'r

| Cymeradwywyd | | Dyddiad |
|---|---|---|

costau sy’n gysylltiedig â’r cais gan gynnwys unrhyw gofnodion troseddol a gwiriadau fetio eraill ar ei gostau ei hun.

(Dechreuodd y gwrandawiad am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.40 a.m.)

| Cymeradwywyd | | Dyddiad |
|---|---|---|